# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Iau, 21 Ionawr 2021

Amser: 13. - 17.00

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/11083

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | John Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Dawn Bowden AS<br>Huw Irranca-Davies AS<br>Mark Isherwood AS<br>Delyth Jewell AS<br>Mandy Jones AS |
| Tystion: | Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd<br>Hannah Blythyn AS, Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol<br>Julie James AS, Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol<br>Judith Cole, Llywodraeth Cymru<br>Emma Williams, Llywodraeth Cymru<br>Ian Williams, Llywodraeth Cymru<br>Debra Carter, Llywodraeth Cymru<br>Jane Hutt AS, Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip |

| | |
|---|---|
| | Alyson Francis, Llywodraeth Cymru<br><br>Sian Gill, Pennaeth Adrodd Ariannol, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Naomi Stocks (Clerc)<br><br>Catherine Hunt (Ail Glerc)<br><br>Chloe Davies (Dirprwy Glerc)<br><br>Jonathan Baxter (Ymchwilydd)<br><br>Osian Bowyer (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1. Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod o'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

1.2. Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

1.3. Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cytuno, pe bai'n gadael y cyfarfod am unrhyw reswm, y byddai Dawn Bowden AS yn Gadeirydd Dros Dro yn unol â Rheol Sefydlog 17.22.

## 2 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22 - sesiwn dystiolaeth 2

2.1. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Julie James AS, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

Hannah Blythyn AS, y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol

Judith Cole - Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Cyllid a Gweithlu Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru

Emma Williams, Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio, Llywodraeth Cymru

Ian Williams, Dirprwy Gyfarwyddwr Cartrefi a Lleoedd, Llywodraeth Cymru

Debra Carter, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyllid Strategol Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru

2.2. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, cytunodd y Gweinidog Tai ac Adfywio i ddarparu'r canlynol:

Diweddariadau ar wneud penderfyniadau o ran y Gronfa Cymorth Dewisol (DAF) a'r galw a ragwelir ar y gronfa;

Enghreifftiau o waith gwella a wnaed gan awdurdodau lleol a chynghorau tref a chynghorau cymuned mewn ymateb i'r pandemig, sy'n debygol o gael effeithiau cadarnhaol hirdymor ar gyfer y cymunedau;

Diweddariadau i'r Pwyllgor ar y gwaith rhwng Grŵp Gweithredu Canol Tref y Gweinidogion ac awdurdodau lleol a chynghorau tref a chymuned, sy'n anelu at greu cadwyni cyflenwi lleol gan ddefnyddio busnesau bach.

## 3 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22 - sesiwn dystiolaeth 3

3.1. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

Jane Hutt AS, y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip

Alyson Francis, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Gymunedau, Llywodraeth Cymru

Sian Gill, Pennaeth Adrodd Ariannol, Llywodraeth Cymru

## 4 Papurau i'w nodi

### 4.1 Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip - strydoedd diogelach a chydraddoldeb i bobl anabl

4.1.a. Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip - strydoedd diogelach a chydraddoldeb i bobl anabl.

### 4.2 Gohebiaeth gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol - Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru): Cyfnod 3

4.2.a. Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol - Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru): Cyfnod 3.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac o'r cyfarfod ar 28 Ionawr

5.1. Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 6 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22 - trafod y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitemau 2 a 3

6.1. Bu'r Pwyllgor yn trafod y dystiolaeth ar gyfer llywio ei adroddiad drafft.